

Syr John Gardner Wilkinson a Chymru

Ganwyd John Gardner Wilkinson yn 1797. Daeth yn awdurdod ar hanes cynnar yr Aifft a threuliodd gryn gyfran o'i fywyd ar waith archaeolegol yn y wlad honno gan ymweld â hi am y tro olaf yn 1856. Ymwelai hefyd â Chymru yn achlysurol ac yn ystod un o'i ymweliadau â Llanofwr, Gwent, cyfarfu â'r Gymraes Caroline Catherine Lucas, llysiuwrraig amatur o gryn alluoedd a oedd ar y pryd yn rhyw fath o gymdeithes i Lady Llanover. Yn 1856 priododd Wilkinson a Catherine Lucas yn Eglwys Llanofwr, yntau'n 59 oed a hithau'n 34. O hynny allan daeth yr elfen Gymreig yn wedd fwyfwy pwysig ar weithgareddau Wilkinson – yn rhannol efallai am na fu'n bosibl iddo ymweld bellach â gwlad yr Aifft oherwydd dirywiad yn ei iechyd. Ar ôl cyfnod yn Ninbych y Pysgod ymgartrefodd y Wilkinsoniaid yn Brynfield, Reynoldston (Bro Gŵyr) – ardal plentyndod Lady Wilkinson. Bu dirywiad pellach yn iechyd Wilkinson yn ystod y 1860au a bu farw ar 29 Hydref 1875, yn 78 oed.

Yn ystod ei fywyd priodasol yng Nghymru gwelwyd disodli peth o ddiddordebau archaeolegol Wilkinson gan weithgareddau eraill – a llai egniol efallai. Dechreuodd ymddiddori mewn gwaith coed a cherfio addurniadol; hefyd, dechreuodd dderbyn gwersi fiolin. Ac yn fwy diddorol fyth efallai dechreuodd fagu diddordeb yn ei amgylchfyd Cymreig a Chymraeg.

Diau mai dylanwad ei wraig fu'n bennaf gyfrifol am hyn. Prif ddiddordeb Catherine Wilkinson oedd naturiaetheg – mae'r llawysgrifau anghyhoeddus o'i gwaith arfaethedig *Distribution of Plants* yn dyst i'w chryn alluoedd botanegol. Ond ymddiddorai Lady Wilkinson hefyd yn hanes cynnar Cymru ac meddai ar wybodaeth sylweddol o'r Gymraeg. Y mae ei llyfr deniadol *Weeds and wild flowers: their uses, legends and literature*



Llanofwr 1970, dathlu Dydd Calan

(Llundain, 1858) yn cynnwys enwau'r planhigion mewn sawl iaith (hyd at ddeuddeg ar gyfer rhai ohonynt) a'r Gymraeg yn gyntaf bob tro; at hyn, mae'r llyfr yn fwynglawdd o wybodaeth am le'r gwahanol blanhigion yn llên gwerin ac arferion pob dydd y Cymry. Weithiau, mae Lady Wilkinson yn cynnwys ei chyfieithiadau ei hunan o nifer o ddywediadau a phenillion Cymraeg perthnasol.

Mae'r casgliad helaeth o 'bapurau' Gardner Wilkinson yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen yn cynnwys peth o waith anghyhoeddus Lady Wilkinson. Ond gwaith ei briod yw'r rhan helaethaf o dipyn o'r cannoedd o lawysgrifau, dyddiaduron a nodiaduron sydd yn y casgliad. Mae'r deunydd o 1856 ymlaen (cyfnod ei briodas) yn adlewyrchu diddordeb cynyddol Syr John mewn materion Cymreig. Ceir ganddo, er enghraifft, nodiadau ar eiriau tafodieithol Saesneg a oedd ar arfer yng Ngŵyr yr adeg honno. Yr un mor

ddiddorol yw'r nodiadur bach sy'n dwyn y teitl 'Welsh vocabulary' ac sy'n rhoi'r Gymraeg ar gyfer rhyw 1150 o eiriau Saesneg. Hyd y gellir barnu mae'r termau a awgrymir yno yn rhai hynod o gywir (er bod ambell fersiwn 'llafar' megis 'ni vedravi' ar gyfer 'I am not able'). Syndod felly yw gweld y termau a gynigir ar gyfer y rhifolion – 'dau ar ddêg' (12), 'tri ar bymtheg' (18), 'deg ar ddeugain' (50) ac felly ymlaen.

Yn 1858 cyhoeddodd Gardner Wilkinson ei lyfr *On Colour; and on the necessity for a general diffusion of taste among all classes ... with examples of good and bad taste ...*; cynhwysai'r llyfr ble cryf o blaid agor amgueddfeydd ac orielau ar y Sul – yn bennaf er mwyn y gweithiau a'u teuluoedd. Bu yn y llyfr hefyd nifer o ddadleuon gwreiddiol – megis rhybudd Wilkinson, yn enw 'harmoni celfyddydol', yn erbyn gorddefnyddio'r lliw gwyrdd. Nid rhyfedd felly mai'r rhan fwyaf diddorol o'r casgliad Bodleidd yw'r nifer helaeth o luniau dyfrliw o dde Cymru o waith Syr John ei hunan. Cyfrifais fod rhyw 140 o'r rhain, wedi'u gwasgaru rhwng y gwahanol becynnau sydd yn y casgliad.

Mae ambell un yn cofnodi digwyddiadau cymdeithasol y bu Syr John yn dyst iddynt – megis llun o'r Fari Lwyd yn Llanofwr yn 1870 ac un o Eisteddfod Caio yn 1858. Ond mae'r rhan helaethaf o ddigon yn olygfeydd sy'n ymwneud yn bennaf â phum ardal yn ne Cymru – Gwent, Bro Morgannwg, Bro Gŵyr, ardal Llanymddyfri a de Penfro. Mae hefyd nifer fach o frasluniau pensil – megis y rhai am ardal Llandrindod ym Maesyfed. Nid wy'n gymwys i famu pa werth y byddai doethineb confensiynol heddiw yn priodoli i alluoedd arlunio Syr John ond tybiaf fod o leiaf beth arwyddocâd topograffyddol a chymdeithasol yn perthyn iddynt. Tebyg mai'r ffaith eu bod megis yn guddiedig



Llanfair-ar-y-bryn, Llanymddyfri

(Parhâd ar dudalen nesaf)